**CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU A GYNHALIWYD AR 20 TACHWEDD 2018 YN NHŶ HASTINGS**

**Yn bresennol:** Mr Owen Watkin (Cadeirydd); Mr Ceri Stradling; Mr David Powell; Mrs Julie May a Mr Theodore Joloza.

**Swyddogion CFfDLC yn bresennol:** Mr Steve Halsall (Prif Weithredwr); Mr Matt Redmond (Dirprwy Brif Weithredwr); Mr Dave Carr (Rheolwr Cyllid); Mrs Cher Cooke (Swyddog Arolygon); Mr Farhan Khan (Swyddog Arolygon); Mr Ross Evans (Swyddog Arolygon), Mr Huw Blacker (Swyddog Arolygon), Mr Tom Jenkins (Swyddog Arolygon) a Mr Matthew Farrell (Swyddog Arolygon).

**Arall:** Mrs Shereen Williams (darpar Brif Weithredwr).

**Ymddiheuriadau:** Mr David Burley (Rheolwr Cymorth Busnes) a Mrs Cath Thomas (Swyddog Arolygon).

**Amser Dechrau:** 9:30
**Amser Gorffen:** 13:00

**Ymddiheuriadau:** Dim

## 1. Datganiadau o Fuddiant

1.1. Ni wnaed unrhyw Ddatganiadau o Fuddiant.

## 2. Briff y Cadeirydd

2.1. Croesawodd y Cadeirydd y darpar Brif Weithredwr, Mrs Shereen Williams i'r cyfarfod.

2.2. Diolchodd y Cadeirydd i'r Ysgrifenyddiaeth am yr holl waith a gafodd ei wneud ar Arolygon Etholiadol Gwynedd a Thorfaen gan fod yr adroddiad Argymhellion Terfynol wedi'i gyhoeddi yn ddiweddar.

## 3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 23 Hydref 2018

3.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Hydref 2018 gyda'r newidiadau y cytunwyd arnynt, fel cofnod cywir o'r materion a ystyriwyd.

3.2. **Penderfynwyd** cyfeirio'r enw " Aberystwyth Morfa-Glais" ar gyfer y ward o'r enw "Bronglais, Central and North" yng Nghofnod 9.2 y Cofnodion, at Gomisiynydd y Gymraeg i'w ystyried.

## 4. Materion yn Codi

4.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig 6 Tachwedd 2018 gan y Prif Weithredwr ar Faterion yn Codi.

4.2. **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad yn gyffredinol gan nodi'r materion i'w trafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod, a nodwyd hefyd cynnydd wedi'i ddiweddaru ar y materion canlynol:

- **(Mater 3)** Adeilad – Mae'r landlord wedi cytuno'r brydles ac mae'r Comisiwn yn aros iddi gael ei llofnodi nawr.

- **(Mater 4)** Polisïau Adnoddau Dynol - Mae graddau'r gwaith hwn wedi'i adolygu, a chanfuwyd ei fod yn fwy helaeth o lawer nag yr ystyriwyd i ddechrau. Mae dau bolisi wedi'u pennu i'w hystyried yn y cyfarfod hwn. **Cytunwyd** newid y dyddiad targed ar gyfer cwblhau o Ragfyr 2018 i fis Mawrth 2019.

  Tynnodd y Cadeirydd sylw at y gofyniad i ystyried Hysbysiad Cydymffurfio'r Asesiad o'r Gymraeg. **Cytunwyd** y byddai'r Prif Weithredwr yn adrodd yn ôl ar hyn yn y cyfarfod nesaf.

- **(Mater 6)** Adroddiad Blynyddol – Cyhoeddwyd Adroddiad Blynyddol 2017-18 ar 28 Hydref 2018.

- **(Mater 7)** Adolygiad o JEGS (Cymorth Graddio a Gwerthuso Swyddi) – Disgwylir canlyniad yr adolygiad erbyn mis Ionawr 2019**.**

- **(Mater 8)** Argymhellion Buddsoddwyr mewn Pobl – Mae cynllun i'w baratoi ar gyfer camau gweithredu i fodloni argymhellion yr adroddiad Buddsoddwyr mewn Pobl erbyn mis Mawrth 2019.

## 5. Polisi Methdaliad ac Ansolfedd

5.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 31 Hydref 2018 gan y Rheolwr Cyllid.

5.2. Mae'r Comisiwn wedi adolygu'r Polisi Methdaliad ac Ansolfedd er mwyn ei gysoni â Pholisi cyfredol Llywodraeth Cymru.

5.3. **Cytunwyd** y Polisi gan y Comisiwn gyda rhai mân newidiadau i'r sillafu/gramadeg yn nogfen y Polisi.

5.4 **Cytunodd** y Comisiwn fod y Polisi'n cael ei adolygu gan yr Archwilwyr Mewnol cyn ei basio ymlaen i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg wneud sylwadau arno cyn ei gyflwyno i gyfarfod o'r Comisiwn yn y dyfodol i'w gymeradwyo'n derfynol.

## 6. Polisi Lletygarwch Corfforaethol

6.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 31 Hydref gan y Rheolwr Cyllid.

6.2. **Penderfynwyd** addasu'r Polisi fel y'i cynhwyswyd yn yr Adroddiad, yn amodol ar fân ddiwygiadau, gan gynnwys rhoi'r ymadrodd "Dirprwy Brif Weithredwr" / "Dirprwy Brif Weithredwr" yn lle'r geiriau "Band Rheoli 1 ym mharagraff 3.5 y ddogfen."

## 7. Rheoli Risg – Y Gofrestr Risg

7.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 6 Tachwedd 2018 gan y Rheolwr Cyllid.

7.2. Nododd y Comisiynydd yr adroddiad, a'i **Gytuno**, yn amodol ar y diwygiadau canlynol.

- Risg CR2 – Camau gweithredu lliniaru wedi'u diweddaru ar ôl recriwtio Prif Weithredwr a'r ymarferiad JEGS sy'n dal i fynd rhagddo.
- Risg CR5 – Dileu'r risg ar ôl rhoi systemau TGCh newydd ar waith.
- Risg CR6 – Ychwanegu cam gweithredu lliniaru'n ymwneud â chytundeb llafar y brydles.
- Ychwanegu Risg newydd (CR7) - Yn ymwneud ag Ymestyn yr Etholfraint. Mae'r risg hon yn ymwneud ag eitem 11 ar yr agenda (gweler isod)

## 8. Adroddiad ar y Gyllideb

8.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 12 Tachwedd gan y Rheolwr Cyllid.

8.2. **Nodwyd** yr adroddiad gan y Comisiwn.

## 9. Arolwg Etholiadol Conwy

9.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 16 Tachwedd gan y Swyddog Arolygon

9.2. **Cytunodd** y Comisiwn Opsiwn 2 ar gyfer ardal Capelulo a Phant-yr-Afon/Penmaenan sy'n cynnwys ward etholiadol arfaethedig: Penmaenmawr

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella lefel gyffredinol cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal.
- Mae'n cadw cysylltiadau cymunedol drwy uno dwy ward yn yr un gymuned.

- Mae'n cynnig y newidiadau lleiaf i'r wardiau etholiadol presennol.

9.3. **Cytunodd** y Comisiwn Opsiwn 1 ar gyfer ardal Marl a Phensarn sy'n cynnwys ward etholiadol arfaethedig: Cyffordd Llandudno

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella lefel gyffredinol cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal.
- Mae'n cadw cysylltiadau cymunedol drwy uno dwy ward yn yr un gymuned.

9.4. **Cytunodd** y Comisiwn Opsiwn 1 ar gyfer ardal y Gogarth a Mostyn sy'n cynnwys ward etholiadol arfaethedig: Gogarth Mostyn

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella lefel gyffredinol cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal.
- Mae'n cadw cysylltiadau cymunedol drwy uno dwy ward yn yr un gymuned

9.5. **Cytunodd** y Comisiwn Opsiwn 3 ar gyfer ardal Llandrillo-yn-Rhos a Rhiw sy'n cynnwys ward etholiadol arfaethedig:

Llandrillo-yn-Rhos a Rhiw

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella lefel gyffredinol cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal.
- Mae'n cydymffurfio â nifer o gynrychiolaethau gan randdeiliaid yn yr ardal.

9.6. **Cytunodd** y Comisiwn Opsiwn 2 ar gyfer ardal Gele, Llanddulas a Llysfaen sy'n cynnwys ward etholiadol arfaethedig:

Gele a Llanddulas, a Llysfaen

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella lefel gyffredinol cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal.
- Mae'n cydymffurfio â nifer o gynrychiolaethau gan randdeiliaid yn yr ardal.
- Mae'n cadw cysylltiadau cymunedol drwy beidio â chynnig unrhyw gymunedau sy'n cael eu gwahanu

9.7. **Cytunodd** y Comisiwn Opsiwn 1 ar gyfer ardal Abergele Pensarn a Phentre Mawr sy'n cynnwys ward etholiadol arfaethedig:

Pensarn a Phentre Mawr.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella lefel gyffredinol cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal.
- Mae'n cydymffurfio â nifer o gynrychiolaethau gan randdeiliaid yn yr ardal.
- Mae'n cadw cysylltiadau cymunedol drwy beidio â chynnig unrhyw gymunedau sy'n cael eu gwahanu

9.8. **Cytunodd** y Comisiwn fod enwau'r wardiau etholiadol arfaethedig yn cael eu cynnwys yn yr Adroddiad Cynigion Terfynol, yn amodol ar rai diwygiadau. Lle mae newidiadau wedi'u gwneud o'r cynigion drafft, bydd yr enwau hyn yn cael eu hanfon at Gomisiynydd y Gymraeg i wneud sylw arnynt.

## 10. Arolwg Etholiadol Merthyr Tudful

10.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 13 Tachwedd 2018 gan y Swyddog Arolygon

10.2. **Cytunodd** y Comisiwn Opsiwn 2 ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:

Bedlinog, Cyfarthfa, Dowlais, Gurnos, Bro Merthyr, Y Parc, Penydarren, Plymouth, Town, Treharris, ac Y Faenor

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella lefel gyffredinol cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal.
- Mae'n lleihau nifer y wardiau â phedwar aelod yn yr ardal.
- Mae'n rhoi aelodaeth o 30, sy'n gyson â'r nod o ran maint cynghorau

10.3. **Cytunodd** y Comisiwn fod enwau'r wardiau etholiadol arfaethedig yn cael eu cynnwys yn yr Adroddiad Cynigion Terfynol, yn amodol ar rai diwygiadau. Lle mae newidiadau wedi'u gwneud o'r cynigion drafft, bydd yr enwau hyn yn cael eu hanfon at Gomisiynydd y Gymraeg i wneud sylw arnynt.

## 11. Dadansoddiad o Estyniad i'r Etholfraint

11.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 15 Tachwedd 2018 gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

11.2. **Nododd** a **Chytunodd** y Comisiwn yr ymateb drafft.

11.3. Byddai'r Dirprwy Brif Weithredwr yn cylchredeg yr adroddiad drwy'r e-bost i gael unrhyw sylwadau pellach, gan bennu 06 Rhagfyr fel terfyn amser ar gyfer sylwadau.

11.4. Bydd yr Adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod mis Rhagfyr i'w gymeradwyo, cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

11.5. Ystyriodd y Comisiwn y risg i waith y Comisiwn y gallai newidiadau i'r Etholfraint eu creu. **Cytunodd** y Comisiwn i ychwanegu'r newid i'r etholfraint at y gofrestr risg gorfforaethol fel pennawd newydd.

## 12. Adroddiad Prosiect Trawsnewid TGCh

12.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 12 Tachwedd 2018 gan y Rheolwr Cymorth Busnes.

12.2. Hysbyswyd y Comisiwn gan y Dirprwy Brif Weithredwr fod cam 1 y prosiect wedi dod i ben, a bod cam 2 wedi dechrau. Hefyd, byddai diweddariadau ar ddiogelwch ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn y dyfodol.

12.3. **Nodwyd** yr adroddiad gan y Comisiwn, a diolchodd i'r Rheolwr Busnes am gwblhau'r prosiect yn llwyddiannus.

## 13. Adroddiad ar Gynnydd Arolygon

13.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 13 Tachwedd 2018 gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

13.2. Hysbyswyd y Comisiwn gan y Dirprwy Brif Weithredwr ei bod yn debygol na fyddai arolwg Abertawe yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Comisiwn ym mis Rhagfyr, ac y byddai'n fwyaf tebygol yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Comisiwn ym mis Ionawr.

13.3. **Nodwyd** yr adroddiad gan y Comisiwn.

## 14. Calendr Digwyddiadau

14.1. **Nododd** y Comisiwn y calendr digwyddiadau wedi'i ddiweddaru.

## 15. Unrhyw Fusnes Arall

15.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig mis Tachwedd 2018, gan y Dirprwy Brif Weithredwr ar y cais am farn y Comisiwn a wnaed gan Ysgrifennydd y Cabinet ar y cynnig gan Cyngor Bro Morgannwg i newid ffiniau wardiau Barug a Castleland yn nhref y Barri i ddileu anomaledd.
**Penderfynwyd** peidio â chynnig unrhyw wrthwynebiad i'r cynnig.

15.2. Ni chodwyd unrhyw eitemau ar gyfer 'Unrhyw Fusnes Arall'.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 18 Rhagfyr 2018, yn dechrau am 08:30**